# Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019

**2019 dccc 4**

## RHAN 2

DEHONGLI A GWEITHREDU DEDDFWRIAETH CYMRU

*Diwygio, diddymu a dirymu deddfwriaeth*

### 35 Effaith ailddeddfu

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo deddfiad ("A")—

(a) yn cael ei ddiddymu neu ei ddirymu gan **[**[F1]Ddeddf gan Senedd Cymru**]** neu is-offeryn Cymreig, a

(b) yn cael ei ailddeddfu (gydag addasiadau neu hebddynt) gan ddeddfiad ("B") sy'n **[**[F1]Ddeddf gan Senedd Cymru**]** neu'n is-offeryn Cymreig neu'n ddeddfiad sydd wedi ei gynnwys mewn **[**[F1]Deddf gan Senedd Cymru**]** neu is-offeryn Cymreig.

(2) Mae cyfeiriad at A mewn unrhyw ddeddfiad, offeryn neu ddogfen i'w ddarllen fel (neu fel pe bai'n cynnwys) cyfeiriad at B.

(3) I'r graddau y gallasai unrhyw is-ddeddfwriaeth a wneir o dan A neu sy'n cael effaith fel pe bai wedi ei gwneud o dan A gael ei gwneud o dan B, mae i gael effaith fel pe bai wedi ei gwneud o dan B.

(4) I'r graddau y gallasai unrhyw beth a wneir neu sy'n cael effaith fel pe bai wedi ei wneud o dan A gael ei wneud o dan B, mae i gael effaith fel pe bai wedi ei wneud o dan B.

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Geiriau yn Deddf wedi eu hamnewid (6.5.2020) gan Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (anaw 1), a. 42(2), **Atod. 1 para. 5(8)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 35 mewn grym ar 11.9.2019 at ddibenion penodedig, gweler **a. 44(1)(c)**

**I2** A. 35 mewn grym ar 1.1.2020 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym gan O.S. 2019/1333, **ergl. 2**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, Adran 35.